# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

**26 MEDI 2018**

**PRESENT:** Councillor H.I. Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** P.M. Edwards a J.E. Williams.

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorwyr W.T. Evans a E. Williams.

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
A. Morgan, Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd;
Mr M. Price, Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
A. Rees, Swyddog Trwyddedu;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
J. Loader, Cynorthwyydd Trwyddedu (Sylwedydd);
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin – 10:00am - 1:30pm**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO - DERWYDD MANSION, DERWYDD ROAD, RHYDAMAN, SIR GAR, SA18 3LQ

Penderfynwyd gan yr Is-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin ohirio'r penderfyniad ynghylch yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro hyd at 31 Gorffennaf 2018 a 26 Medi 2018, er mwyn casglu tystiolaeth bellach.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer y cyfarfod a dywedodd wrth yr Is-bwyllgor fod hysbysiad gwrthwynebu wedi cael ei gyflwyno gan Adain Iechyd y Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro a gyflwynwyd gan Mrs Maria Dallavalle o La Scala, 15 Rhodfa Bryn Mawr, Rhydaman SA18 2DA.

Roedd yr Hysbysiadau am Ddigwyddiad Dros Dro yn berthnasol i adwerthu alcohol, darparu Adloniant Rheoledig a Lluniaeth Hwyrnos ar y safle ar y diwrnod a'r amser canlynol:-

Dydd Sadwrn 3 Tachwedd 2018 – Y Neuadd Fawr, Plasty Derwydd.
- Cyflenwi Alcohol, Adloniant Rheoledig a Lluniaeth Hwyrnos 12:00-00:30

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor gan Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod Adain Iechyd y Cyhoedd wedi gwrthwynebu'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar sail niwsans sŵn yn sgil digwyddiadau blaenorol a gynhaliwyd ar y safle.

Cafodd y wybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd a chan Adran Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd ei dosbarthu gan y Swyddogion Trwyddedu. Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried y dogfennau a gyflwynwyd gan gynnwys y wybodaeth ychwanegol, a'r holl sylwadau ysgrifenedig a ddaeth i law, cyn clywed gan y partïon.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau llafar gan Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd:-

- Mynegodd Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd ei fod yn siomedig i fod yn bresennol unwaith eto heddiw gan mai'r gobaith oedd y byddai hyn wedi'i ddatrys mewn modd cyfeillgar.

- Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor y byddai'r dystiolaeth heddiw yn canolbwyntio ar briodasau dan do. Fodd bynnag, ers y cyfarfod diwethaf, mae Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd wedi tynnu sylw'r Is-bwyllgor at Hysbysiad Atal mewn perthynas â Niwsans Sŵn, a gyflwynwyd i Derwydd Mansion Events Limited ar 21 Medi 2018.

- Gan gyfeirio at y Cynllun Rheoli Sŵn a ddarperir yn y wybodaeth ychwanegol, amlinellodd Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd yr elfennau allweddol o'r mesurau lliniaru i'r Is-bwyllgor a dywedodd nad yw'n glir a yw'r ymgeisydd yn gweithredu'r cynllun mewn gwirionedd.

- Ar ôl y digwyddiad diwethaf a gynhaliwyd ar 1 Medi 2018, gofynnwyd i Mrs Dallavalle egluro pa elfennau o'r Cynllun Rheoli Sŵn a oedd wedi'u cyflawni. Ar gais Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd, rhoddodd Mrs Dallavalle atebion Ie/Na clir mewn perthynas â phob pwynt penodol. Pwysleisiodd Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd ei fod ef ei hun wedi gweld digwyddiadau a dorrai reolau'r cynllun, yn groes i ymatebion a roddwyd gan Mrs Dallavalle.

- Cyfeiriwyd at fap yn y wybodaeth ychwanegol, a ddangosai gynllun o Blasty Derwydd a'r ardal gyfagos. Dangosai'r map ddau wahanol lwybr wedi'u nodi'n 'Llwybr A', ar ochr orllewinol yr eiddo ac a oedd yn mynd o'r Maes Parcio i'r Babell Fawr, a 'Llwybr B' a oedd yn mynd o'r Plasty i'r Babell Fawr ar ochr ddwyreiniol yr eiddo yn agos i'r eiddo cyfagos. Er mwyn lleihau sŵn ac aflonyddwch i'r cymdogion, y llwybr a ffefrir i'w ddefnyddio fyddai Llwybr A. Dywedwyd bod pobl wedi'u clywed yn defnyddio Llwybr B ar ôl i ymarfer monitro gael ei gynnal ar 1 Medi 2018.

- Yna cafodd yr Is-bwyllgor gyfle i wrando ar y 5 recordiad sain a gasglwyd gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd wrth fonitro lefelau sŵn yn ystod y digwyddiad ar 25 Awst 2018 rhwng 13:57 a 00:01. Cafodd y recordiadau eu gwneud mewn ystafell wely yn un o'r eiddo cyfagos a chadarnhawyd y gellid clywed sŵn injans o geir yn aros, pobl yn canu, yn gweiddi ac yn sgrechian a cherbydau'n teithio dros gerrig mân rhydd.

Dywedodd Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd na fyddai'r sŵn wedi effeithio ar yr eiddo cyfagos pe byddai'r digwyddiad wedi cydymffurfio â'r mesurau yn y Cynllun Rheoli Sŵn.

Cafodd yr holl bartïon gyfle i holi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd am ei sylwadau ac am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Mewn ymateb i nifer o ymholiadau, dyma'r hyn a ddywedwyd gan Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd:

- Byddai ffenestri'n cael eu hagor yn aml yn y tywydd twym ac roedd gan unigolyn yr hawl i agor ffenestr yn ystod y cyfnod monitro.

- Roedd yr Hysbysiad Atal a gyflwynwyd yn cyfeirio'n benodol at gerddoriaeth drwy uchelseinydd.

- Pe byddai'r mesurau yn y Cynllun Rheoli Sŵn wedi'u gweithredu'n llawn, byddai'r lefelau sŵn wedi bod o fewn y lefelau gofynnol.

Yna cafodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth gan gymdogion i'r safle a oedd yn cefnogi gwrthwynebiadau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd oherwydd y rhesymau canlynol:-

- Roedd y tystion wedi symud i'r bwthyn cyfagos i gael tawelwch;

- Roedd y priodasau'n cynnwys cerddoriaeth uchel/pobl yn gweiddi a oedd yn ei gwneud yn anodd cysgu;

- Roedd y digwyddiadau'n amharu ar eu bywydau ac yn cael effaith niweidiol ar eu hiechyd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r tyst ynghylch ei sylwadau.

- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y tyst nad oedd y broblem yn ymwneud ag un sŵn penodol; yr effaith gyffredinol oedd y broblem gan gynnwys cerbydau, sŵn pobl, a cherddoriaeth yn dod o ardal y plasty o ddechrau'r digwyddiad i oriau mân y bore ar y diwrnod canlynol.

Ar hynny, rhoddwyd sylw i'r pryderon a'r materion hyn gan Mr Nigel Williams, DJ a Rheolwr Sain Plasty Derwydd, a oedd yn bresennol ar ran Mrs Dallavalle. Dyma'r hyn a ddywedwyd ganddo:-

- Ei rôl ef oedd helpu Mrs Dallavalle i sicrhau bod y priodasau'n ddidrafferth, a oedd yn broses barhaol.
- Yn unol â'r Cynllun Rheoli Sŵn, byddai'r mesurau canlynol yn cael eu rhoi ar waith mewn digwyddiadau yn y dyfodol:-
  - Byddai'r seinyddion yn wynebu i'r cyfeiriad arall o'r eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn;
  - Byddai'r amleddau is (63-125hz) yn cael eu rheoli i'r lefelau isaf sy'n ymarferol;
  - Roedd mesurau wedi'u cyflwyno i reoli pobl a thraffig.

- Mae'r 2 briodas nesaf sydd wedi'u harchebu wedi gofyn am fandiau byw, y cytunwyd arnynt gan Mrs Dallavalle gan fod y priodasau wedi'u harchebu 2 flynedd ymlaen llaw. Roedd Mr Williams yn cydnabod ei bod yn anodd cadw'r lefelau sŵn yn isel pan fydd bandiau byw'n chwarae a'u bod yn rhoi rhai mesurau lliniaru ar waith i geisio cyfyngu ar y niwsans sŵn.

- Er mwyn symud ymlaen, byddent siŵr o fod yn gwrthod bandiau byw yn y dyfodol a byddai Mr Williams yn gyfrifol am reoli/monitro sŵn.

- Cafwyd problemau o ran gosod gwahanfur sain dros dro (a oedd i gael ei adeiladu gyda bêls gwair) rhwng y seinyddion a lleoliadau'r derbynyddion, hyd at 3m o uchder. Y problemau oedd bod bêls gwair yn ddrud ac nad ydynt yn ddymunol i'r llygaid mewn man cynnal priodasau. Yn ogystal, roedd pryderon o ran iechyd a diogelwch ynghylch adeiladu gwahanfur 3m o uchder â bêls gwair.

- Er bod 3 aelod o staff diogelwch yn gweithio yn y digwyddiad, cydnabuwyd bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn atal pobl rhag defnyddio Llwybr B. Ychwanegodd Mr Williams y byddai'n awgrymu i Mrs Dallavalle y byddai cau mynediad i Lwybr B yn fuddiol.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi Mr Williams ynghylch ei sylwadau.

- Gofynnwyd i Mr Williams beth oedd ei rôl yn ystod y digwyddiad. Dywedodd Mr Williams mai ef oedd meistr y seremonïau yn ystod y dydd a'i fod yn helpu gyda'r nos, gan gynnwys dyletswyddau yn y maes parcio, dyletswyddau diogelwch a rheoli pobl.

- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Mr Williams fod Mrs Dallavalle, yr Ymgeisydd, yn bresennol ar y safle am y 2 ddigwyddiad diwethaf a chymerodd ran fawr i'w cynnal. Ychwanegodd Mr Williams nad oedd yn gweithio ym mhen blaen y plasty bob amser ac yn bersonol byddai wedi argymell cau pen blaen y plasty i ffwrdd.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad, rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw hefyd i'r paragraffau perthnasol yn Natganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ac i'r Cyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref a nodwyd yn yr eitem ar yr agenda, ac i'r rheiny y cyfeiriwyd atynt gan y partïon.

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid cyflwyno Gwrth-Hysbysiad.**

**Y RHESYMAU**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd cwynion gan breswylwyr eiddo cyfagos ac ymarferion monitro sŵn gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd wedi dangos bod digwyddiadau ar y safle wedi achosi sŵn a oedd yn tarfu ar breswylwyr yr eiddo cyfagos;

2. Roedd cerddoriaeth ar y safle'n achosi niwsans sŵn (yn enwedig yn ystod digwyddiadau yn yr awyr agored) yn ogystal â'r ymwelwyr a'u cerbydau;

3. Roedd y sŵn yn tarfu gymaint nes ei fod yn niwsans cyhoeddus gan ei fod yn effeithio ar rai o'r cyhoedd;

4. Roedd yr ymgeisydd wedi ymgysylltu ag Ymgynghorydd Sŵn er mwyn datblygu Cynllun Rheoli Sŵn cadarn y cytunwyd arno yn dilyn hynny gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd;

5. Roedd yr ymgeisydd wedi methu â gweithredu'r cynllun yn iawn yn ystod y digwyddiad diwethaf ar y safle;

6. Mae Adran Iechyd yr Amgylchedd wedi cyflwyno Hysbysiad Atal o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â digwyddiadau ar y safle.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar sylwadau Adran Diogelu'r Amgylchedd.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad fod ar sail dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe na roddid gwrth-hysbysiad, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gall roi ystyriaeth briodol iddynt.

Roedd tystiolaeth glir bod digwyddiadau ar y safle'n achosi sŵn sy'n tarfu ar breswylwyr eiddo cyfagos. Roedd tystiolaeth glir bod yr ymgeisydd wedi methu â gweithredu'n briodol y mesurau rheoli a gynigiwyd gan ei hymgynghorydd sŵn yn ystod y digwyddiad diwethaf. Felly, nid oedd gan yr Is-bwyllgor lawer o ffydd yng ngallu'r ymgeisydd i reoli digwyddiadau ar y safle mewn ffordd a fyddai'n lliniaru unrhyw aflonyddwch ar y cymdogion.

Nododd yr Is-bwyllgor fod Hysbysiad Atal wedi'i gyflwyno i'r ymgeisydd. Fodd bynnag, roedd hyn yn cyfeirio at sŵn y gerddoriaeth yn unig. Felly nid oedd yr Is-bwyllgor yn credu y byddai'r Hysbysiad Atal yn darparu amddiffyniad digonol mewn perthynas â'r digwyddiad hwn.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y modd yr oedd yr ymgeisydd yn gweithredu'r safle yn tanseilio amcan y drwydded o ran atal niwsans cyhoeddus. Roedd yr ymgeisydd wedi cael nifer o gyfleoedd i ddangos y gallai weithredu'r safle mewn modd na fyddai'n achosi niwsans ac roedd wedi methu â gwneud hynny.

Felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod cyflwyno Gwrth-Hysbysiad yn briodol ac yn gymesur yn yr achos hwn.

Byddai'r Is-bwyllgor yn annog yr ymgeisydd i weithredu'r Cynllun Rheoli Sŵn yn llawn ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gallai methu â gwneud hynny gael ei ystyried wrth benderfynu ar Hysbysiadau am Ddigwyddiad Dros Dro yn y dyfodol.

**[Ar y pwynt hwn, gohiriwyd y cyfarfod am 5 munud gan y Cadeirydd er mwyn caniatáu egwyl]**

## 3. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE TAFARN Y PELICAN, STRYD Y SYCAMORWYDDEN, CASTELL NEWYDD EMLYN SA38 9AP

Soniodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, gan ddweud wrth yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Cefin Llywellyn Evans, am amrywio'r drwydded safle ar gyfer Tafarn y Pelican, Stryd y Sycamorwydden, Castellnewydd Emlyn SA38 9AP fel a ganlyn:-

- "Darparu Lluniaeth Hwyrnos dydd Sul i ddydd Iau 23:00-00:00;<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn 23:00-02:30.
- Cyflenwi Alcohol dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00-02:00.
- Oriau Agor dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00-02:30."

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A - copi o'r cais a 2 lythyr o gefnogaeth;
Atodiad B – copi o'r drwydded safle bresennol;
Atodiad C – sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu;
Atodiad B – sylwadau gan Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;
Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.
Nid oedd yr Awdurdodau Cyfrifol eraill wedi gwneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cais.

Yn ogystal â'r uchod, derbyniodd yr Is-bwyllgor, â chaniatâd yr holl bartïon, fap Geo-Discover o Stryd y Sycamorwydden a'r ardal gyfagos, gan gynnwys safle Tafarn y Pelican, a oedd wedi'i nodi gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r dogfennau a gyflwynwyd, a'r holl sylwadau ysgrifenedig perthnasol a gafwyd cyn y gwrandawiad gan y partïon.

Cyfeiriodd Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys at ei gyflwyniad, fel y manylir arno yn Atodiad D i'r adroddiad a dywedodd y canlynol:-

- Roedd wedi cysylltu â Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Castellnewydd Emlyn, Rhingyll y Tîm Plismona Bro a'r Swyddog Trwyddedu o Aberteifi i gael eu barn ynghylch y cais. Roedd hefyd wedi cwrdd â'r ymgeisydd a'r tenant ar y safle ym mis Mehefin i drafod y cynlluniau.

- O ganlyniad i'r trafodaethau a'r ymweliad dilynol, roedd wedi ysgrifennu at yr ymgeisydd ar 7 Awst 2018 gan roi gwybod iddo, er nad oedd gwrthwynebiad ffurfiol gan yr Heddlu i'r amrywiad, fod yr Heddlu o'r farn bod hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu i gynnwys nifer o amodau ychwanegol fel yr amlinellir yn y llythyr (gweler Atodiad D i'r adroddiad) yn nhrwydded y safle yn angenrheidiol ac yn briodol oherwydd yr oriau hwyrach y gwnaed cais amdanynt, pe byddai'r Is-bwyllgor am gymeradwyo'r cais am amrywiad.

- Dywedodd yr ymgeisydd y byddai'n cynnwys pwynt 19 o'r amodau yn wirfoddol, sef "Ni fydd neb yn cael mynd i mewn i'r safle na mynd yn ôl i mewn i'r safle ar ôl hanner nos."

- Roedd yr Heddlu o'r farn bod rhaid i Oruchwylydd Penodedig y Safle, sydd â thrwydded bersonol, reoli'r safle o ddydd i ddydd. Ar hyn o bryd, nid oedd gan y tenant drwydded bersonol ac ni allai Mr Evans, a oedd yn Oruchwylydd Penodedig y Safle ar y pryd, fod ar y safle'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd gan unigolion eraill a oedd yn gweithio ar y safle drwyddedau personol.

- Roedd yna un safle arall yn y dref a oedd ar agor tan 2am. Roedd yr Heddlu yn fodlon ar y drwydded 2am gan y byddai hyn yn deg ac yn gyson â safleoedd trwyddedig eraill yn yr ardal ac y byddai'n atal pobl rhag symud.

- Nid oedd hanes o droseddau ac anhrefn ar y safle. Roedd 1 neu 2 alwad wedi'u gwneud dros y blynyddoedd ond nid oedd dim wedi peri pryder.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi Mr Price, cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys ynghylch ei sylwadau.

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Mr Price rôl Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys a'r cymwysterau angenrheidiol.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch oriau gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, cadarnhaodd Mr Price nad yw'r Swyddogion yn gweithio ar ôl 10.00pm ac felly nad ydynt ar ddyletswydd ar amserau hanfodol. Fodd bynnag, mae'r Swyddog yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.

- Esboniodd Mr Price fod y safle trwyddedig o'r enw 'The Bunch of Grapes' ar agor tan 2.00am ac roedd nifer o faterion wedi codi ynghylch problemau sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cydnabuwyd nad oedd y materion hyn mor wael â'r rheiny y byddwch yn eu cael mewn tref fwy, ond roeddent yn sylweddol mewn tref fach megis Castellnewydd Emlyn.

Er mwyn rheoli'r materion, roedd angen rhoi cynllun rheoli ar waith. Yn ogystal, mae'r Heddlu o'r farn y gall oriau agor hwyrach yn Nhafarn y Pelican helpu i leihau'r problemau.

- Gofynnwyd sut y byddai'r Heddlu'n delio â dau safle ag oriau agor hwyr. Dywedodd Mr Price y byddai dau safle sy'n cau'n hwyr yn y dref yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n symud ac y byddai'r Heddlu'n addasu'n unol â hyn.

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Mr Price nad oedd gan The Bunch of Grapes amod ynghylch cau'r drws i gwsmeriaid newydd. Felly, roedd cwsmeriaid yn gallu mynd i mewn unrhyw bryd hyd at 2am.

Yna cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan barti â buddiant a oedd yn gwrthwynebu'r cais am amrywio'r drwydded safle am y rhesymau y manylir arnynt yn Atodiad E i'r adroddiad a dywedwyd y canlynol ganddo:

- Mae hi'n byw ger Tafarn y Pelican ac roedd hi wedi tybio bod ganddynt drwydded hyd at 1.00am.

- Nid yw'n gwrthwynebu'r drwydded rhwng dydd Llun a dydd Gwener gan ei bod wedi arfer â hyn, er y cafwyd rhai problemau o ran cerddoriaeth mae hi wedi addasu ei bywyd i allu ymdopi gan ei bod yn byw yn agos i'r dafarn.

- Yn benodol mae hi'n gwrthwynebu'r amser cau hwyr am 2.30am gan fod hyn eisoes yn broblem y mae hi'n gweithio o'i hamgylch.

- Mae tacsis yn broblem ychwanegol gan eu bod yn aros y tu allan heb ddiffodd eu hinjans sy'n achosi niwsans sŵn. Yn aml mae hi'n mynd i'r gwely'n hwyr er mwyn osgoi cael ei dihuno.

- Roedd y modd yr oedd y safle'n cael ei reoli eisoes yn effeithio ar ei bywyd.

- Roedd amodau presennol y drwydded yn cael eu torri'n rheolaidd.

- Mae presenoldeb yr Heddlu yn brin iawn yn y dref yn barod.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r gwrthwynebwr ynghylch ei sylwadau.

Mewn ymateb i nifer o gwestiynau, dyma'r hyn a wnaed gan y gwrthwynebydd:

- Dywedodd ei bod wedi siarad â gyrwyr tacsis gyda'r hwyr am beidio â diffodd eu hinjans. Er bod rhai wedi cydweithredu, mae eraill wedi gwrthod. Mae hi'n ymwybodol bod herio'r gyrwyr tacsis yn ei gwneud yn darged am fod yn achwynydd. Yn ogystal, gallai rhai o'r tacsis fod yn aros am 40 munud ar y tro;

- Cadarnhaodd nad oedd ganddi ffenestri gwydr dwbl gan ei bod yn byw mewn adeilad rhestredig gradd 2.

- Cadarnhaodd fod y preswylwyr sy'n byw drws nesaf i Dafarn y Pelican hefyd wedi cwyno wrthi am y sŵn ond roeddent wedi symud i ffwrdd gan nad oeddent yn gallu ymdopi â'r sŵn. Yn ogystal, roedd y person a oedd yn byw ar draws y ffordd wedi cwyno am y sŵn;

- Mae hi'n derbyn ei bod yn byw mewn tref, y byddai hi'n clywed sŵn a bod Tafarn y Pelican yn well the The Bunch of Grapes;

- Dywedodd, er y byddai'n ceisio addasu'n unol â digwyddiadau hwyr, na fyddai hi'n gallu addasu pe byddai'r oriau agor yn cael eu hestyn i 2.30am;

- Pwysleisiodd ei bod hi eisoes wedi galw 101 ddwywaith heb gael ymateb;

- Dywedodd fod y sŵn yn amharu arni ar y rhan fwyaf o'r penwythnosau, ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn. Er ei bod hi'n fodlon ar dipyn bach o aflonyddwch, mae hi'n gwrthwynebu aflonyddwch diangen.

- Dywedodd y byddai'r safle ar agor yn rheolaidd y tu allan i oriau'r drwydded, sy'n achosi'r broblem o ran y tacsis. Roedd yn ymddangos fel petai hyn yn digwydd bob penwythnos, a dyma pam roedd hi wedi synnu wrth weld y cais oherwydd ei bod yn credu bod y dafarn ar agor tan 1am yn barod.

- Mae hi'n pryderu am ddarparu lluniaeth hwyrnos yn enwedig yn ystod yr oriau hwyrach yn y dafarn gan fod problemau mawr wedi bod o ran y lleoedd cludfwyd gyda'r hwyr yn y dref;

Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu wrth yr holl bartïon presennol y byddai ardal gludfwyd y lleoliad yn cael ei chynnwys yn y drwydded wedi'i hamrywio ac felly gallai fod ar agor tan 2.30am.

Yna cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd am drwydded safle a nodwyd yn Atodiad A ac ymatebwyd i'r pryderon a'r materion a godwyd.

- Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod y tenant wedi gweithredu'r lle cludflwyd yn y gorffennol, ond nid yw'n ei weithredu mwyach;

- Cadarnhaodd mai ef yw Goruchwylydd Penodedig y Safle a'i fod yn gweithio'n llawn amser mewn man arall, ond mae'n ymweld â'r safle'n aml. Roedd gan 2 aelod o staff yn y dafarn drwyddedau personol ac roedd un ohonynt ar ddyletswydd bob amser yn ystod oriau agor y dafarn;

- Dywedodd y byddai'r tenant hefyd yn ddeiliad trwydded bersonol ac y byddai'n gwneud cais am fod yn Oruchwylydd Penodedig y Safle pe byddai'r cais am amrywio'r drwydded safle'n cael ei gymeradwyo;

- Mae gan yr ymgeisydd 30 mlynedd o brofiad yn y fasnach a'i fod yn hyderus o ran y ffordd gywir o redeg tafarn. Dywedodd fod Tafarn y Pelican yn dafarn gyfeillgar yn y dref a'i fod ond am gael tegwch rhwng yr holl fusnesau;

- Roedd o'r farn y byddai'r amrywiad yn lleihau'r straen ar yr Heddlu;

- Dywedodd fod 5 tafarn yn y dref ac y byddai'n addasu i'r newid mewn patrymau yfed, lle mae pobl yn dewis mynd allan yn llawer hwyrach nag o'r blaen;

- Awgrymodd, efallai, y gallai polisi gael ei gyflwyno i annog gyrwyr tacsis i ddiffodd eu hinjans;

- Dywedodd ei fod yn hapus i gydymffurfio ag amodau'r Heddlu.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Mewn ymateb i nifer o gwestiynau, dywedodd yr ymgeisydd:

- fod nifer o Hysbysiadau am Ddigwyddiad Dros Dro wedi'u defnyddio fel rhan o brawf ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw broblemau na materion o ganlyniad iddynt;

- nad oedd bob amser ar y safle yn ystod y nos ar benwythnosau ond ei fod ar gael os bydd angen;

- er ei fod wedi rhedeg y dafarn o'r blaen, roedd Mr Giles yn denant ar y safle ar hyn o bryd ac mae'n rheoli ei fusnes ei hun o ddydd i ddydd. Yn ogystal, roedd ganddo hawl i gymryd camau gweithredu os caiff deddfau trwyddedu eu torri, yn unol â'r Cytundeb Tenantiaeth.

Daeth sylwadau i law'r Is-bwyllgor gan Mr Giles, tenant yn Nhafarn y Pelican:

Dyma'r hyn a ddywedwyd gan Mr Giles wrth yr Is-bwyllgor:

- Roedd 3 man aros ar gyfer tacsis yn yr ardal, a dim ond un ohonynt y tu allan i Dafarn y Pelican.  Gan mai man aros yw hwn, nid yw'n golygu bod y tacsi'n casglu cwsmeriaid yno o reidrwydd. Mae'n debygol eu bod yn aros am alwadau'n gofyn iddynt fynd i fan arall, yn enwedig os ydynt yn aros am 40 munud;

- Roedd arwydd wedi'i osod i rybuddio pobl rhag curo ar y drws ar ôl 11.00pm.  Yn anffodus, mae pobl yn curo ar y drws ar ôl i'r dafarn gau wrth iddo lanhau ac nid oes modd iddo rwystro hyn rhag digwydd;

- Nid oedd bwriad o fod ar agor tan 2.00am, ond hoffai gael yr opsiwn o allu cloi'r drws am 12.00am er mwyn rhoi cyfle i gwsmeriaid aros yn hwy pe byddent yn dymuno. Yn ei brofiad, mae pobl yn gadael y dafarn yn raddol ar nid ar yr un pryd.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad, rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw hefyd i'r paragraffau perthnasol yn Natganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ac i'r Cyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref a nodwyd yn yr eitem ar yr agenda, ac i'r rheiny y cyfeiriwyd atynt gan y partïon.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol ag amodau trwyddedu 1-19 yr oedd yr ymgeisydd a'r heddlu wedi cytuno arnynt.**

**Y RHESYMAU**

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd y safle'n agos i nifer o eiddo preswyl.

2. Roedd y safle wedi bod yn gweithredu y tu allan i'w oriau agor dynodedig ar adegau, er nad oes tystiolaeth bod gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal yn ystod yr adegau hyn.

3. Nid oedd yr ymgeisydd yn gyfrifol am reoli'r safle o ddydd i ddydd.

4. O dan delerau'r cytundeb tenantiaeth roedd gan yr ymgeisydd y pŵer i orfodi ei denant i gydymffurfio ag unrhyw amodau'r drwydded sydd wedi'u pennu.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad fod yn seiliedig ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth yr achwynydd yn gredadwy ac yn rymus a derbyniodd yr Is-bwyllgor fod y cwsmeriaid yn gadael y safle a'r tacsis yn aros i'w casglu wedi amharu arni ar sawl achlysur yn oriau mân y bore.

Nododd yr Is-bwyllgor farn yr Heddlu fod amodau ychwanegol y drwydded a gynigiwyd ganddynt yn ddigon i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Hefyd, nododd yr Is-bwyllgor dystiolaeth yr heddlu y byddai'r amrywiad yn gwneud lles i'r dref.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth yr Heddlu fod yr amodau a gynigiwyd gan yr Heddlu yn ddigon i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu os cânt eu gweithredu'n briodol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y gwaith o reoli'r safle o ddydd i ddydd yn ddigon da i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae hyd yn oed y gwrthwynebydd yn derbyn bod Mr Giles yn ddeiliad trwydded da.

Felly roedd ys Is-bwyllgor yn fodlon bod cymeradwyo'r cais yn briodol yn amodol ar yr amodau y cytunir arnynt er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn, ac roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cam hwn yn briodol o ystyried y materion a nodwyd.

**CHAIR** **DATE**